cwmpas

# Papur Gwyn: Hwb Datblygu Cydweithredol

## Cynllun cydweithredol er twf economaidd



# Amdanom ni

## Mae Cwmpas yn gweithio o fewn cymunedau ledled Cymru i helpu adeiladu economi wyrddach a thecach, a chymdeithas fwy cyfartal.

Ers dros 40 mlynedd, mae Cwmpas wedi bod yn gweithio o fewn cymunedau ledled Cymru i helpu adeiladu economi wyrddach a thecach, a chymdeithas fwy cyfartal.

A ninnau'n gwmni cydweithredol, credwn y dylai ein heconomi a'n cymdeithas weithio'n wahanol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, gyda mwy o fusnesau'n defnyddio'u helw er budd a bod pob cymuned wedi'i grymuso i lywio'i dyfodol ei hun.

Rydym yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol a datrysiadau cydweithredol, ac yn cefnogi cymunedau, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i wella ac arloesi trwy gynnig cyngor busnes arbenigol, cymorth busnes cymdeithasol, cynhwysiant digidol, tai dan arweiniad y gymuned a datrysiadau gofal, ac amrywiaeth o wasanaethau dysgu, datblygu ac ymgynghori.

Mae gennym dair cenhadaeth:

### 1. Creu economi werddach a thecach

Trwy gyngor busnes arbenigol, cymorth busnes democrataidd a chymdeithasol, a hyrwyddo perchnogaeth gan gwmnïau cydweithredol, y gymuned neu weithwyr, rydym yn gweithio i greu dyfodol lle mae mwy o fusnesau'n defnyddio'u helw er budd a lle gall cymunedau ffynnu trwy fwy o gyfleoedd cyflogaeth a chyfoeth lleol.

### 2. Adeiladu cymdeithas decach

Mae ein gwasanaethau cynhwysiant digidol, tai dan arweiniad y gymuned a gofal ataliol yn helpu i leihau anghydraddoldeb iechyd ac ariannol, atal unigedd ac ynysu, gwella iechyd a lles a grymuso cymunedau i lunio'u dyfodol eu hunain a chael at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

### 3. Gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd

Mae ein rhaglenni dysgu a datblygu yn cefnogi twf y sector a'i arweinwyr yn y dyfodol, ochr yn ochr â'n harbenigedd a'n hamrywiaeth o wasanaethau ymgynghorol sydd wedi'u dylunio i yrru arloesedd trwy gefnogi trawsnewid digidol, gwerth cymdeithasol, cydweithredu a chyd-ddylunio, ymchwil, gwerthuso, astudiaethau dichonoldeb a datblygu polisïau.

# Cyflwyniad

**Gall Cymru fod yn falch o'i heconomi gydweithredol a'i hanes hir o arloesi cydweithredol. Mae gan y mudiad ei wreiddiau yng Nghymru trwy syniadau Robert Owen a, gyda'n gilydd, rydym wedi arwain y ffordd wrth ddatblygu datrysiadau cydweithredol i'r heriau'r ydym wedi'u hwynebu – boed hynny yn hanes Glofa'r Tŵr neu ddatblygiad yr economi ym mherchnogaeth y gymuned yng Ngwynedd.**

Fodd bynnag, yn Cwmpas, credwn yn gryf fod angen i ni fynd gam ymhellach a bod angen strategaeth newydd ar gyfer datblygu cydweithredol. Ni fydd economi anghyfartal, sy'n mynd â chyfoeth allan o'r wlad, gyda chyrion cydweithredol, yn datrys problemau cyfoeth coll, cyfleoedd coll a thlodi dwfn Cymru.

Mae arnom angen ymagwedd at ddatblygu economaidd a chymunedol sydd wedi'i grymuso gan fodelau a gwerthoedd cydweithredol – un sy'n creu swyddi cynaliadwy ac sy'n helpu i adeiladu a chadw cyfoeth yng nghymunedau Cymru. Trwy roi llais go iawn i gymunedau ar draws Cymru, gallwn sicrhau bod penderfyniadau'n aros yn lleol, gan rymuso pobl i lywio'u dyfodol gyda'i gilydd.

Nawr, mae angen mwy o fuddsoddiad yn y model cydweithredol a dangos sut y gall chwarae rhan allweddol yn uchelgeisiau Cymru am dwf economaidd. Mae cyfle gwirioneddol i'r sector nawr ac ni ddylem golli'r cyfle. Mae cefnogi cwmnïau cydweithredol yn cyd-fynd yn berffaith â nodau economaidd ehangach.

Mae economi gydweithredol gadarn yn helpu i greu cyfoeth a'i gadw yng Nghymru. Hefyd, mae'n dwyn cymunedau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau angor ynghyd i weld cyfleoedd economaidd a gwireddu newid cadarnhaol.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddyblu maint yr economi gydweithredol. Mae'n hanfodol bod Cymru'n manteisio'n rhagweithiol ar y cyfle hwn i ddatblygu'r sector cydweithredol yma – neu cawn ein gadael ar ôl. Mae angen cynllun clir i sicrhau bod Cymru'n arwain y ffordd wrth dyfu busnesau cydweithredol er twf economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut gall buddsoddiad targedig mewn Hwb Datblygu Cydweithredol ein helpu i gyflawni hyn.

# Datblygiad economaidd cydweithredol: egwyddorion, modelau, buddion a'r cyd-destun yng Nghymru

## 1. Egwyddorion cydweithredol

- Mae cwmni cydweithredol ym mherchnogaeth a rheolaeth ei aelodau. Mae'n bodoli er budd ei aelodau, a all fod yn gwsmeriaid, yn weithwyr, yn gyflenwyr neu'r gymuned ehangach.
- Mae cwmni cydweithredol yn ddemocrataidd – mae hyn yn golygu bod gan bob aelod lais cyfartal yn y ffordd y caiff ei redeg a sut caiff yr elw ei ddefnyddio.
- Mae pob aelod yn cyfrannu'n ariannol mewn rhyw fodd – o brynu nwyddau, gweithio i'r cwmni cydweithredol, buddsoddi ynddo neu benderfynu sut i wario'i elw.
- Mae cwmni cydweithredol yn fusnes annibynnol, ym mherchnogaeth a rheolaeth ei aelodau.
- Mae'n cynnig addysg a hyfforddiant i bawb sy'n ymwneud ag ef, fel y gallant ddatblygu'r cwmni cydweithredol a hyrwyddo buddion cydweithredu.
- Mae'n cydweithredu â chwmnïau cydweithredol eraill, yn gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi.
- Mae cwmni cydweithredol yn cefnogi'r cymunedau y mae'n gweithio gyda nhw.

Mae cwmnïau cydweithredol yn grymuso unigolion a chymunedau i gymryd rheolaeth ar eu dyfodol economaidd a gwasanaethau lleol meithrin creu cyfoeth yn lleol a lleihau'r ddibyniaeth ar ddatrysiadau tymor byr a modelau economaidd sy'n tynnu cyfoeth allan o'r wlad.

## 2. Gwahanol strwythurau cydweithredol/gwahanol fathau o gwmnïau cydweithredol

Mae'r mudiad cydweithredol yn amrywiol, gan gwmpasu amryw fodelau sy'n addas i wahanol sectorau ac anghenion economaidd. Mae mathau allweddol o gwmnïau cydweithredol yn cynnwys:

- Cymdeithasau Cydweithredol: Dyma fusnesau ym mherchnogaeth a rheolaeth eu haelodau, a all fod yn weithwyr, yn gymunedau, yn ddefnyddwyr neu'n gyflenwyr.
- Cymdeithasau Budd Cymunedol (CBSs): Mae'r sefydliadau hyn yn gweithredu er budd y gymuned ehangach. Yn aml, maent yn canolbwyntio ar wasanaethau hanfodol fel egni, tai a chynhyrchu bwyd yn lleol, gan sicrhau bod cyfoeth a rheolaeth yn aros yn nwylo cymunedau.
- Busnesau ym Mherchnogaeth y Gweithwyr (EOBs): Mae'r mentrau hyn ym mherchnogaeth lwyr neu fwyafrifol eu gweithwyr, sydd â chyfran uniongyrchol yn llwyddiant y busnes. Mae perchnogaeth gan weithwyr yn gwella cynhyrchiant, lefelau cadw staff a democratiaeth y gweithle. Mae Ymddiriedolaeth Perchnogaeth gan y Gweithwyr yn fath o berchnogaeth gan weithwyr lle mae'r cyfranddaliadau'n cael eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ran y gweithwyr.
- Ffurfiau cyfreithiol eraill fel CLG ac LLP: Gall cwmnïau cydweithredol fabwysiadu llawer o ffurfiau cyfreithiol, gan gynnwys cwmnïau stoc ar y cyd. Cadw at y 7 egwyddor yw'r elfen ddiffiniol.

# Grym economaidd cwmnïau cydweithredol

**Gall cwmnïau cydweithredol chwarae rhan fawr mewn creu swyddi da ac adeiladau economïau lleol cryfach, yn enwedig mewn rhannau o Gymru lle mae cyfraddau'r busnesau newydd yn isel ac mae lefelau uwch o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd.**

Mae busnesau cydweithredol wedi'u seilio ar entrepreneuriaeth ar y cyd. Maent yn caniatáu i bobl ddod ynghyd i ddechrau busnesau i ateb angen cyffredin a darparu swyddi cynaliadwy i'w haelod-sylfaenwyr, a hefyd i dyfu ac arallgyfeirio, gan sicrhau bod y busnes wedi'i angori o fewn y gymuned ac y gall greu swyddi a lles i genedlaethau'r dyfodol.

Bydd llawer o unigolion yn wynebu rhwystrau enfawr rhag sefydlu eu busnes eu hunain, boed hynny'n sgiliau, yn wybodaeth, yn gyllid, neu'n hyder a hunangred. Mae cwmnïau cydweithredol yn ei gwneud hi'n haws trwy ddod â phobl ynghyd. Mae amlygu datrysiadau ymarferol, entrepreneuraidd a chydweithredol yn ffordd allweddol y gallwn ni gynyddu cyfradd geni busnesau mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol, canol dinas, gwledig ac arfordirol.

Os byddwn yn eu hyrwyddo, gan dargedu'r rhai sydd â'r symbyliad i greu cyfleoedd economaidd iddynt eu hunain a'r gymuned ehangach fel aelod-sylfaenwyr posibl, yna gall model cwmnïau cydweithredol fod yn ffordd rymus o alluogi twf busnes a datblygiad economaidd cynhwysol o fewn y gymuned honno.

Yn wahanol i fusnesau traddodiadol, lle mae buddsoddwyr yn prynu cyfranddaliadau sy'n cynyddu mewn gwerth wrth i'r busnes dyfu, gall cwmnïau cydweithredol gael eu dylunio fel bod elw'n cael ei ailfuddsoddi yn y busnes neu ei ddefnyddio i ddechrau cwmnïau cydweithredol newydd. Felly, wrth i'r cwmni cydweithredol lwyddo, mae ei fuddion yn aros o fewn y gymuned - creu cyfleoedd newydd, cefnogi rhagor o swyddi ac adeiladu rhwydwaith o fusnesau cydweithredol gan feithrin gwydnwch yn yr economi leol a chynnal swyddi sy'n talu'n dda o fewn cymuned.

Dyma fodel lle mae'r elw'n rhoi grym i gymunedau a phobl mewn gwaith. Mewn cwmnïau cydweithredol, caiff elw ei rannu'n ddemocrataidd, gydag aelodau'n penderfynu gyda'i gilydd sut i ddefnyddio'r arian – p'un a yw hynny'n golygu creu cyfleoedd economaidd newydd, talu buddrannau i bobl mewn gwaith a enillodd yr elw hwnnw, neu fuddsoddi mewn meysydd a fydd o fudd i'r gymuned gyfan.

Mae economi gydweithredol ffyniannus yn dwyn buddion sylweddol i gymunedau lleol ac i Gymru gyfan, gan helpu cymunedau i feithrin gwydnwch economaidd, cydlyniant cymunedol a datblygu cynaliadwy.

# Grym cymdeithasol cwmnïau cydweithredol

**Mae cwmnïau cydweithredol yn harneisio grym cymdeithasol trwy alluogi pobl i lunio'r cymunedau lle maen nhw'n byw yn weithgar.**

Trwy berchnogaeth ar y cyd a chyfranogi democrataidd, maent yn cefnogi ac yn addysgu unigolion i gymryd rheolaeth ar benderfyniadau lleol, gan sicrhau bod gan bawb lais wrth lunio eu dyfodol.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u gwreiddio yng ngwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol: mae tegwch, democratiaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd yn grymuso unigolion a chymunedau sy'n rhy aml yn cael eu hymylu neu eu hallgau, gan sicrhau nad yw cyfranogi'n cael ei gyfyngu gan ryw, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb neu gefndir cymdeithasol-economaidd. Yn y modd hwn, mae cwmnïau cydweithredol yn creu cyfle cyfartal gwirioneddol i gymryd rhan ac i elwa o weithgarwch cymdeithasol ac economaidd.

Trwy gymryd perchnogaeth ar asedau a gwasanaethau cymunedol, maent yn helpu i gadw adnoddau pwysig yn nwylo'r gymuned, gan eu gwneud yn fwy cyfrifol ac yn fwy hygyrch i bawb. Yn hollbwysig, mae cwmnïau cydweithredol yn annog meddwl a chynaliadwyedd hirdymor, gan wreiddio budd y gymuned uwchlaw elw tymor byr. Drwy wneud hynny, maent yn adeiladu cymunedau cryfach, tegach a mwy gwydn lle mae amrywiaeth yn cael ei chydnabod fel cryfder, lle mae anghydraddoldebau'n cael eu lleihau, ac mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd dros gymdeithas fwy cynhwysol a chynaliadwy.

# Mantais cwmnïau cydweithredol

- Cynhyrchiant: Nid yw'n syndod bod data economaidd yn awgrymu bod modelau cydweithredol yn arwain at fwy o ymgysylltu a chynhyrchiant gan weithwyr, trwy roi cyfran wirioneddol i weithwyr yn eu busnes.
- Creu swyddi a gwaith teg: Mae cwmnïau cydweithredol yn blaenoriaethu amodau gweithio da, tâl teg a sicrwydd mewn swydd. Yn benodol, mae perchnogaeth gan y gweithwyr a chwmnïau cydweithredol gweithwyr yn gysylltiedig â mwy o foddhad â swyddi a chadw mwy o staff.
- Sefydlogrwydd economaidd a pherchnogaeth leol ar gyfoeth: Mae cwmnïau cydweithredol wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau lleol ac maent yn cadw cyfoeth i gylchdroi o fewn y gymuned, yn hytrach na chael ei gymryd oddi yno gan randdeiliaid allanol. Mae hyn yn cryfhau economïau a chadwyni cyflenwi lleol ac mae'n gwella sefydlogrwydd ariannol.
- Rheolaeth ddemocrataidd: Mae cwmnïau cydweithredol yn gweithredu ar sail ddemocrataidd, gan sicrhau bod penderfyniadau busnes yn adlewyrchu diddordebau cyfunol eu haelodau yn hytrach na nifer fach o fuddsoddwyr allanol.
- Arloesi a meddwl hirdymor: Gan nad ydynt yn cael eu gyrru gan adenillion byrdymor i gyfranddalwyr, mae gan gwmnïau cydweithredol yr hyblygrwydd i fuddsoddi mewn arloesi, hyfforddiant ac ymarfer cynaliadwy. Mae lefelau ymgysylltu uwch yn meithrin arloesedd ymhlith yr holl aelodau a gweithwyr.
- Perchnogaeth ac adfywio cyffredin: Trwy beidio â rhannu asedau ac elw ac ailfuddsoddi gwarged mewn cynhyrchion, gwasanaethau a syniadau busnes newydd, gall cwmnïau cydweithredol greu ecosystem datblygu busnes atgynhyrchiol, lle mae pob cwmni cydweithredol yn helpu i feithrin un arall, gan luosogi gwerth economaidd lleol a chreu swyddi. Yn wahanol i fodelau lle mae'r elw'n cael ei dynnu allan o'r busnes, mae perchnogaeth gyffredin yn sicrhau budd cymunedol hirdymor. Mae'r ymagwedd hon, a ysbrydolwyd gan Mondragon yng Ngwlad y Basg, yn meithrin ecosystemau cydweithredol cydgysylltiedig, gwydn, sy'n ymateb i anghenion y farchnad tra'n hyrwyddo twf cynhwysol.

Mae ehangu'r model cydweithredol ar draws Cymru'n gyfle arwyddocaol i gefnogi twf economaidd ac adeiladu economi decach, fwy democrataidd. Mae'r ymagwedd hon yn dwyn buddion hirdymor i aelodau, gweithwyr, cymunedau a busnesau fel ei gilydd. Wrth i Gymru ymrafael â thrawsnewid economaidd, bydd annog mwy o gwmnïau cydweithredol yn hanfodol i greu economi sy'n fwy cydnerth, cynhwysol ac sydd ym mherchnogaeth a rheolaeth leol.

# Yr economi gydweithredol yng Nghymru: maint y sector a beth allai dyblu ei olygu yng Nghymru

**Mae adroddiad 'Co-operative Mutual Economy 2024' Co-operatives UK yn rhoi arwydd i ni o faint presennol yr economi gydweithredol yng Nghymru. Mae'n awgrymu bod 518 o gwmnïau cydweithredol yng Nghymru, gydag incwm cyfunol o oddeutu £500m y flwyddyn ac yn cwmpasu 300,000 o aelodau.**

O holl wledydd y DU, Cymru sydd ar y blaen o ran twf yn nifer y busnesau cydweithredol, gyda 3.0 cwmni newydd dros 5 mlynedd fesul 100,000 o bobl, yna'r Alban (1.9), Lloegr (1.6) a Gogledd Iwerddon (1.2). Fodd bynnag, rydym ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill y DU o ran maint cyffredinol yr economi – gydag £1.6bn yng Ngogledd Iwerddon, £1.9bn yn yr Alban a £38.4bn yn Lloegr, o gymharu â £0.5bn yng Nghymru.

Felly, mae angen clir am ddatblygu strategaeth i feithrin twf cydweithredol yng Nghymru, i leihau'r bwlch hwn a sicrhau bod Cymru'n gwneud y mwyaf o fuddion economi gydweithredol fwy.

Fel rhan o Policy Plan for Co-operative Growth Co-operatives UK, argymhellant fod Llywodraeth y DU yn gosod y nodau canlynol:

- Dyblu nifer y cwmnïau cydweithredol dros ddegawd - o ryw 7,500 i ryw 15,000, gyda ffocws ar ansawdd ynghyd â nifer
- Dyblu gwerth ychwanegol gros (GVA) cwmnïau cydweithredol dros ddegawd – o £13bn i £26bn a, thrwy wneud hynny, helpu i ddyblu cyfraniad cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol cyfunol at GDP y DU dros yr un cyfnod, trwy alluogi mwy o gwmnïau cydweithredol uchel eu potensial i gael eu ffurfio a galluogi mwy o gwmnïau cydweithredol presennol i ffynnu a chyflawni eu heffaith economaidd a chymdeithasol bosibl, yn unigol ac ar y cyd.

Petaem ni'n gosod y nodau cyfatebol yng Nghymru, ar sail data mapio Co-operatives UK, byddai hyn yn golygu datblygu 518 o gwmnïau cydweithredol newydd dros y deg mlynedd nesaf. Byddai cyflawni'r targed hwn yn golygu bod modelau cydweithredol yn cael eu datblygu ar draws y wlad, gyda chefnogaeth ecosystem gydweithredol gref a rhagweithiol.

Er mwyn i hyn fod yn fwyaf effeithiol a gwir ailgydbwyso economi Cymru a meithrin twf economaidd cynhwysol, mae arnom angen ffocws ar ansawdd yn ogystal â nifer. Nid oes gennym y data angenrheidiol i gyfrifo maint economi cydweithredol Cymru o ran gwerth ychwanegol gros, ond ar sail adroddiad mapio Co-operatives UK, gallwn amcangyfrif bod trosiant y sector yn £500m, sy'n debyg yn fras i gyfran Cymru o ddyblu sector y DU ar sail maint y boblogaeth ar draws y DU. Petaem ni'n gallu dyblu'r nifer hon a chynhyrchu £500m o drosiant ychwanegol yn y sector cydweithredol dros y deg mlynedd nesaf byddai'n cadw swm sylweddol o arian yng nghymunedau Cymru.

Fodd bynnag, mae mapio Co-operatives UK yn dweud wrthym fod yr economi gydweithredol yng Nghymru yn llunio cyfran lai o lawer o gyfanswm incwm economi gydweithredol y DU yn ei chyfanrwydd, sef dim ond 1.2% - felly, mae dadl gref y dylem fod yn fwy uchelgeisiol ac anelu at fynd ymhellach i ddal i fyny â gweddill y DU.

# Astudiaethau achos ar iwyddiannau cydweithredol Cymru

## Dulas – cwmni cydweithredol yng Nghymru yn pweru dyfodol gwyrddach

Dulas yw un o gwmnïau cydweithredol ym mherchnogaeth gweithwyr mwyaf llwyddiannus Cymru, gan arloesi datrysiadau ynni adnewyddadwy ers dros bedwar degawd. Mae'r cwmni, a sefydlwyd ym 1982, wedi chwarae rhan hanfodol mewn datblygu systemau ynni solar, gwynt a dŵr, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Sefydlwyd Dulas fel is-gwmni i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) ym Machynlleth, sef sefydliad blaenllaw ar gyfer datblygu cynaliadwy ac ymchwil i ynni adnewyddadwy. Crëwyd y sefydliad gan grŵp o beirianwyr ac amgylcheddwyr a oedd yn rhannu gweledigaeth darparu datrysiadau ynni adnewyddadwy ymarferol a fforddiadwy, tra'n cynnal arferion busnes moesegol. Sefydlon nhw Dulas fel cwmni cydweithredol ym mherchnogaeth gweithwyr, gan sicrhau bod cyfran gan yr holl weithwyr mewn gwneud penderfyniadau ac yn nyfodol y cwmni.

Heddiw, mae Dulas yn parhau i ffynnu fel un o brif ymgynghorwyr a darparwyr technoleg ynni adnewyddadwy'r DU. Mae wedi cyfrannu'n sylweddol at economi werdd Cymru, gan greu swyddi, cefnogi cymunedau a lleihau allyriadau carbon. Mae ei lwyddiant yn dangos hyfywedd modelau busnes cydweithredol wrth gyflawni buddion economaidd a chymdeithasol cynaliadwy, hirdymor.

Mae ei daith o gwmni deillio bach i arweinwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol ym maes ynni adnewyddadwy yn amlygu pwysigrwydd dyfalbarhad, cydweithredu ac ymrwymiad i dda cymdeithasol. Wrth i'r byd droi'n gynyddol at ddatrysiadau cynaliadwy, mae Dulas yn enghraifft wych o sut gall cwmnïau cydweithredol Cymru helpu i greu dyfodol gwyrddach.

Mae sefydliadau fel y Ganolfan Dechnoleg Amgen yn dangos cymaint y gall y grwpiau hyn ei wneud pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd dros gynaliadwyedd a syniadau newydd.

## Calon Wen – llwyddiant cydweithredol yn niwydiant bwyd Cymru

Mae Calon Wen yn arddangos cryfder, cynaliadwyedd a chydnerthedd modelau cydweithredol yn y diwydiant bwyd.

Mae'r cwmni cydweithredol hwn, a sefydlwyd ym Mawrth 2000, yn dwyn 25 o ffermydd teuluol ledled Cymru ynghyd, wedi'u huno yn eu hawydd i sicrhau marchnadoedd hirdymor i laeth organig Cymreig. Ar ddechrau eu taith, cafodd Calon Wen gymorth amhrisiadwy gan Cwmpas, gan helpu'r grŵp i osod sylfeini cadarn at ei ddyfodol.

Mae Calon Wen wedi datblygu a thyfu ei frand organig Cymreig ei hun yn llwyddiannus, gan gefnogi prosesu organig yma yng Nghymru ac angori'r penderfyniadau yn ein cymunedau. Er gwaethaf heriau, fel cystadleuaeth yn y farchnad a'r gallu i gael at gyfalaf, mae Calon Wen wedi parhau'n gystadleuol, gan ddarparu swyddi mewn ardaloedd gwledig a chryfhau economïau cymunedol lleol.

Mae llwyddiant cydweithfeydd ffermwyr fel Calon Wen yn amlygu eu gwerth fel ased yn y diwydiant bwyd a'r potensial am lwyddiant a thwf hirdymor. Trwy ddwyn adnoddau at ei gilydd a rhannu arbenigedd, a lleihau risg unigol, mae cwmnïau cydweithredol yn galluogi ffermwyr i gadw mwy o werth trwy brosesu, brandio a gwerthiannau uniongyrchol.

Mae'r model cynaliadwyedd economaidd hwn yn grymuso ffermwyr i gael llais ym mhenderfyniadau'r farchnad ac mae'n cynnig enghraifft wych i gwmnïau cydweithredol eraill ei dilyn. Trwy gydnerthedd a dull cydweithredol cydweithio a rhannu adnoddau, mae'r cydweithfeydd ffermwyr hyn yn dangos bod cydweithredu a chydnerthedd yn gallu helpu i adeiladu system fwyd gadarnach, fwy cynaliadwy i bawb.

## Awel Aman Tawe – ymagwedd at gynaliadwyedd sy'n gynhwysol ac wedi'i harwain gan bobl

Mae Awel Aman Tawe yn gwmni cydweithredol ynni cymunedol blaengar yng nghymoedd Tawe a Nedd, gan arddangos potensial economaidd a chymdeithasol ynni adnewyddadwy ym mherchnogaeth y gymuned yng Nghymru.

Mae'r cwmni cydweithredol, a sefydlwyd i ymateb i'r newid hinsawdd ac i heriau economaidd lleol, yn berchen ar dyrbinau gwynt ger Pontardawe ac yn eu gweithredu, gan gynhyrchu ynni glân i'r grid ac incwm i'r gymuned leol.

Ac yntau'n gwmni cydweithredol, mae Awel Aman Tawe yn sicrhau bod y buddion ariannol o gynhyrchu ynni yn aros o fewn y gymuned. Mae gwarged yn cael ei ailfuddsoddi mewn amrywiaeth eang o brosiectau lleol, gan gynnwys cyngor ar effeithlonrwydd ynni, addysg ar yr hinsawdd mewn ysgolion a chefnogaeth i fentrau cymdeithasol. Hefyd, mae'r cwmni cydweithredol wedi chwarae rhan flaenllaw mewn sefydlu Egni Co-op, gan ehangu effaith mentrau ynni cymunedol ar draws Cymru.

Yn holl bwysig, mae gwaith Awel Aman Tawe' wedi'i wreiddio mewn ymgysylltu lleol, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ddemocrataidd a'u bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned. Maent wedi adeiladu ffyrdd cadarn ymhlith y cyhoedd ac wedi meithrin balchder lleol mewn ynni adnewyddadwy, gan brofi y gall pontio i sero net gael ei arwain gan bobl a bod yn gynhwysol.

Mae Awel Aman Tawe yn enghreifftio sut gall cwmnïau cydweithredol ynni cymunedol gyflawni nodau amgylcheddol tra'n adeiladu economïau lleol cydnerth, wedi'u grymuso, yng Nghymru.

## Cartrefi Co-op – grymuso cymunedau trwy gyd-gynhyrchu

Cartrefi Cymru Co-operative yw un o ddarparwyr gofal cymdeithasol mwyaf Cymru, gan gefnogi pobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth a phobl hŷn ledled Cymru i fyw'n annibynnol, gyda phwrpas.

Yn ei hanfod, mae'n gydweithfa fywiog sy'n cynnwys 1,200 o weithwyr, 650 o unigolion sy'n derbyn cymorth, a miloedd o ffrindiau, perthnasau ac eiriolwyr. Ac yntau'n gydweithfa â rhanddeiliaid lluosog, mae Cartrefi yn dwyn y grwpiau hyn ynghyd o gwmpas cenhadaeth gyffredin gwella ymwneud gan y gymuned a chryfhau ei allu fel darparwr cymorth.

Yn 2016, fe wnaethant bontio o fod yn elusen draddodiadol i gydweithfa â rhanddeiliaid lluosog, gan wreiddio cyfranogiad democrataidd yn eu llywodraethiant. Mae aelodaeth ar agor i'r bobl y maent yn eu cefnogi, i staff ac i gynghreiriaid cymunedol, gan sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu lleisiau'r rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf. Mae Cyngor Cenedlaethol, gyda chynrychiolaeth gyfartal o bob grŵp, yn goruchwylio llywodraethiant ac atebolrwydd.

Mae'r model cynhwysol hwn wedi cael effaith gymdeithasol sylweddol. Yn hytrach na derbyn gofal yn oddefol, mae'r aelodau bellach yn gyd-gynhyrchwyr, yn llywio gofal a chymorth. Mae staff yn elwa o ddiwylliant sy'n rhoi pwys ar eu harbenigedd, gan wella morâl, lefelau cadw staff ac ansawdd y gwasanaeth mewn sector lle mae trosiant yn uchel.

Hefyd, mae buddion economaidd clir. Ac yntau'n un o'r cwmnïau cydweithredol mwyaf yng Nghymru, mae'n cyflogi nifer sylweddol o bobl ar draws y wlad, gan greu swyddi lleol sefydlog ac ailfuddsoddi adnoddau mewn cymunedau yn hytrach na thynnu elw allan ohonynt. Mae ei ddull cyd-gynhyrchu yn lleihau gwastraff a dyblygu. Trwy feithrin annibyniaeth a chefnogi dulliau ataliol, mae Cartrefi hefyd yn gostwng costau hirdymor i systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Cartrefi Co-op yn arddangos sut gall model rhanddeiliaid lluosog gynhyrchu grymuso cymdeithasol, cydnerthedd economaidd a gofal cynaliadwy sy'n cael ei arwain gan y gymuned.

## Cwmni Bro – gwydnwch cydweithredol lleol

Mae Cwmni Bro yn rhwydwaith o fentrau cymdeithasol sy'n cydweithio i gryfhau'r economi a'r gymuned leol ym Mro Ffestiniog. Yn ganolog iddo y mae strwythur cydweithredol sy'n hwyluso cydweithredu, nid yn unig rhwng y mentrau eu hunain ond hefyd gyda phartneriaid allweddol yn y sectorau preifat a chyhoeddus sy'n llunio rhan o economi sylfaenol yr ardal. Mae'r dull demograffig ac integredig hwn yn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad ym Mro Ffestiniog yn cael ei arwain gan y gymuned, ar gyfer y gymuned.

Mae'r model sy'n cael ei arloesi gan Gwmni Bro yn cyfuno agweddau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar fywyd cymuned. Mae prosiectau'n amrywio o ddiogelu asedau cymunedol i greu cyfleoedd am waith, hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu mentrau cynaliadwy sy'n gwella cydnerthedd lleol. Trwy gynnwys lleisiau'r gymuned mewn penderfyniadau, mae'r cwmni cydweithredol yn sicrhau bod twf yn adlewyrchu anghenion a gwerthoedd pobl leol yn hytrach na buddiannau allanol. Mae hyn yn dal cyfoeth yn y gymuned, yn hytrach na bod cyfoeth yn cael ei dynnu allan o'r gymuned.

Mae effaith a photensial y model yn glir. Mae newid diwylliannol ar y gweill ym Mro Ffestiniog – tuag at feddylfryd "gwneud pethau drosom ein hunain". Bellach, mae'r gymuned mewn sefyllfa well i gymryd y camau nesaf i adeiladu dyfodol cryfach, tecach a mwy cynaliadwy, gan gynnig ysbrydoliaeth nid yn unig i Fro Ffestiniog ond i gymunedau ledled Cymru a'r tu hwnt.

## BIC Innovation – twf perchnogaeth gweithwyr

Mae Cymru wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol – mae wedi dyblu nifer y busnesau sydd ym mherchnogaeth y gweithwyr ddwy flynedd yn gynnar, yn ôl targed Llywodraeth Cymru.

Ffactor ganolog yn y llwyddiant hwn fu'r buddsoddiad yn y gallu i ddatblygu'r farchnad trwy Berchnogaeth Gweithwyr Cymru. Mae'r fenter benodol hon wedi dyrchafu'r model perchnogaeth gan weithwyr ac wedi datblygu'r farchnad trwy hyrwyddo strategol, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymdrechion cysylltiadau cyhoeddus (PR) trylwyr, gan ei wneud yn opsiwn grymus i berchnogion busnes ar draws y wlad.

Ers bod ym mherchnogaeth y gweithwyr, mae nifer gweithwyr BIC Innovation, sef cwmni ymgynghori busnesau yng Ngwynedd, wedi mwy na threblu, gyda llawer o syniadau newydd yn cael eu cynhyrchu trwy ymagwedd ar y cyd at gydweithredu ac arloesi. Mae busnesau llwyddiannus eraill sy'n uchel eu proffil ac sydd wedi dod i berchnogaeth y gweithwyr yn cynnwys gwerthwyr tai Dafydd Hardy, Tregroes Waffles ac Educ8 Training Group.

Mae'r trosglwyddiadau hyn nid yn unig wedi diogelu swyddi, ond hefyd wedi gwella ymgysylltu ac arloesi gan y gweithwyr. Mae gwaith hyrwyddo strategol a datblygiad y farchnad benodol gan Berchnogaeth Gweithwyr Cymru, ynghyd â thirlun polisi a threthiant cefnogol, wedi meithrin y twf hwn, ac mae'n cyfrannu at dirlun economaidd mwy cydnerth a chynhwysol. Mae llawer y gallwn ei ddysgu o dwf y sector busnesau ym mherchnogaeth y gweithwyr a'i gymhwyso i'r mudiad cydweithredol ehangach.

## Cwmpas – arwain trwy esiampl

Ac yntau'n gwmni cydweithredol ei hun, mae Cwmpas yn cyflogi oddeutu 100 o bobl ar draws Cymru ac mae'n cadw ac yn denu arian i'r wlad.

Ganed Cwmpas i ymateb i dad-ddiwydiannu'r 1980au ac aeth ati'n rhagweithiol i greu cwmnïau cydweithredol newydd i ddarparu swyddi i'r nifer gynyddol o bobl ddi-waith yng nghymunedau Cymru.

Mae Cwmpas yn cyflwyno amrywiaeth eang o brosiectau ar draws Cymru, ar lefel genedlaethol a lleol. Trwy gadw buddsoddiad a gweithgarwch economaidd yng Nghymru a cheisio ffyrdd arloesol bob amser o gyflawni prosiectau, mae Cwmpas yn parhau i ddenu rhagor o gyllid a chefnogaeth.

Trwy ei ymrwymiad i gydweithredu a thwf dan arweiniad y gymuned, mae Cwmpas yn fodel ar gyfer sut gall gweithredu cyfunol wireddu newid cadarnhaol.

# Yr angen am fuddsoddi mewn datblygu'r farchnad ar gyfer twf cydweithredol yn rhagweithiol

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cwmnïau cydweithredol a datblygiad y model mewn sawl ffordd ers dechrau datganoli. Un o'r prif ffyrdd mae wedi gwneud hyn oedd trwy fuddsoddi mewn cymorth arbenigol trwy Fusnes Cymdeithasol Cymru, a ddarperir gan Cwmpas.**

Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn llwyddiannus, gan gefnogi creu nifer sylweddol o fusnesau cymdeithasol ffyniannus sydd, eu hunain, wedi creu busnesau, swyddi a chyfoeth gwerthfawr.

Dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers colli cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, mae'r gallu o fewn Busnes Cymdeithasol Cymru wedi'i neilltuo'n bennaf i ddarparu arweiniad i syniadau am fentrau cymdeithasol cam cynnar uchel eu heffaith, ond ar raddfa fechan. Er y gall y busnesau hyn greu gwerth cymdeithasol enfawr ac mae'r cymorth arbenigol hwn yn allweddol, mae wedi golygu y bu llai o allu ar gyfer datblygiad rhagweithiol busnesau cydweithredol ar raddfa fwy sydd â mwy o botensial i dyfu mewn cymunedau a chadwyni cyflenwi.

Mae datblygiad cydweithredol bob amser wedi bod yn ganolog i'n DNA. Mae Cwmpas yn sefydliad cydweithredol annibynnol yn ei rinwedd ei hun ac rydym wedi llwyddo bob amser i sicrhau cyllid i hyrwyddo datblygiad cydweithredol mewn ardaloedd penodol. Lle mae hyn wedi digwydd, rydym wedi gweld effaith wirioneddol.

Ar ddechrau'r ganrif hon, derbyniom gyllid i arwain menter datblygu undebau credyd, a wnaeth gynnwys cyllid grant. Daeth hyn yn brosiect arweiniol o dan y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd newydd a chwarae rhan allweddol mewn datblygu'r sector yng Nghymru. Daeth twf y sector ym mherchnogaeth gweithwyr yng Nghymru yn sgil ein papur gwyn yn 2021 ar sut i ddyblu maint y sector ac mae buddsoddiad dilynol yn y gallu i ddatblygu'r farchnad o fewn Perchnogaeth Gweithwyr Cymru wedi chwarae rhan hanfodol yn nhwf y sector. Mae ein prosiectau, Cymunedau'n Creu Cartrefi a Pherthyn, yn gweithio'n rhagweithiol gyda chymunedau ac ynddynt, gan hyrwyddo modelau cwmnïau cydweithredol ac ym mherchnogaeth y gymuned, gan ddwyn y modelau hyn i gynulleidfaoedd newydd a gweithio gyda nhw i wireddu syniadau.

Nawr, mae angen i ni fod yn fwy bwriadol a gyrru twf trwy roi'r modelau cydweithredol hyn yn ganolog i'n polisi ar ddatblygu economaidd. I wireddu uchelgais gwneud busnes cymdeithasol yn fodel busnes o ddewis yng Nghymru, mae ehangu'r sector cydweithredol yn hanfodol. Bydd meithrin y genhedlaeth nesaf o gwmnïau cydweithredol mwy yn sicrhau bod cyfoeth yn cael ei gynhyrchu a'i gadw yng nghymunedau Cymru, gan greu cyflenwad cynaliadwy o swyddi o ansawdd uchel. Bydd hyn yn gofyn am allu neilltuedig i hyrwyddo, amlygu a datblygu syniadau cydweithredol ar draws yr economi a dwyn pobl o gymunedau ledled Cymru ynghyd i'w gwireddu.

## Cymru – cenedl gydweithredol

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o Gymru fel cenedl gydweithredol, mae angen hwb datblygu cydweithredol ar Gymru. Rydym wedi llunio cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer yr Hwb Datblygu Cydweithredol sy'n anelu at yrru twf economaidd a chryfhau ein cymunedau. Gallwch ddarllen hwn yn yr atodiadau.

# Sectorau uchel eu potensial am dwf cwmnïau cydweithredol

**Mae cyfleoedd clir am fodelau cydweithredol yn y sectorau allweddol a fydd yn gyrru llesiant a ffyniant yng Nghymru. Bydd y modelau cydweithredol hyn yn gwneud y mwyaf o'r buddion i Gymru trwy gynhyrchu twf economaidd, creu swyddi da, angori busnesau yng Nghymru ac yn eu hardaloedd lleol, ac annog ymgysylltu gan weithwyr a'r gymuned.**

## Yr economi werdd

Cydnabuwyd bod y pontio i Gymru sero net yn un o angenrheidiau economaidd, amgylchedd a chymdeithasol mwyaf hanfodol ein hoes. Rhagwelir y bydd yr economi werdd yn tyfu'n gyflym – ond ni fydd ei fuddion yn cyrraedd cymunedau Cymru yn awtomatig a gallai hyn beri risg gwaethygu anghydraddoldeb, oni bai bod modelau perchnogaeth a rheolaeth cynhwysol wedi'u gwreiddio o'r cychwyn.

Mae cwmnïau cydweithredol yn cynnig ateb grymus. Er enghraifft, nid yn unig y mae cydweithfeydd ynni cymunedol yn datgarboneiddio cynhyrchu ynni, maent hefyd yn cynhyrchu refeniw sy'n cael ei gadw'n lleol, yn grymuso pobl leol ac yn cynyddu cefnogaeth y cyhoedd i fentrau'r hinsawdd.

Fodd bynnag, ni fydd hynny'n digwydd ar hap. Rhaid i Gymru arwain ar adeiladu ecosystem cymorth ragweithiol, gan gynnig cymorth targedig ac adeiladu rhwydwaith yn rhagweithiol ar gyfer cydweithfeydd gwyrdd cam cynnar. Enghraifft bosibl o hyn fyddai cefnogi datblygiad cwmni cydweithredol Cymru gyfan i ôl-osod y stoc tai presennol yn y sectorau cymdeithasol a phreifat - gan gadw cyfoeth yng Nghymru a chynnig cyfleoedd i weithwyr hunangyflogedig yn ein cymunedau.

Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai'r Hwb Datblygu Cydweithredol yn chwarae rhan allweddol mewn dwyn pobl ynghyd, gan hwyluso datblygiad y sefydliad a'i gynorthwyo i dyfu, ac eiriol dros ddatblygu polisi ategol.

## Yr economi ariannol

Mae economi ariannol gynhwysol a moesegol yn hanfodol i gefnogi economïau lleol cadarn. Mae sector undebau credyd Cymru, er gwaethaf ei genhadaeth gymdeithasol a'i hanes profedig o greu gwerth cymdeithasol i'w gwsmeriaid, ar ei hôl hi o gymharu â sectorau tebyg yn Iwerddon a'r Alban o ran graddfa ariannol a gwelededd. Nid oherwydd diffyg potensial y mae'r bwlch hwn – mae oherwydd darnio a datblygiad annigonol y farchnad.

Fodd bynnag, gyda'r strategaeth gywir, gallai undebau credyd Cymru dyfu'n gyflym yn elfen allweddol o seilwaith ariannol Cymru, gan greu swyddi mewn cymunedau Cymreig a chadw arian yn cylchdroi o'u mewn. Hefyd, mae llawer o botensial am fenthyca effeithiol i fusnesau bach, gyda chyllid cymunedol yn gyfrwng ar gyfer adeiladu cyfoeth mewn cymunedau a goresgyn rhwystrau rhag cael cyfrif banc yn y sector bancio prif ffrwd.

I wireddu'r potensial hwn, mae'n rhaid i Gymru gryfhau a meithrin ei sector cyllid cydweithredol trwy atgyfnerthu'r sector presennol, gwella gallu digidol a gwreiddio undebau credyd mewn seilwaith gwasanaethau cyhoeddus – fel cynlluniau cynilo trwy'r gyflogres, systemau cymorth lles a mentrau datblygu cymunedol. Gall yr Hwb Datblygu Cydweithredol gefnogi'r gwaith o ddiwygio fframweithiau rheoleiddio a chyllid i gydnabod gwerth cymdeithasol hirdymor cyllid cynhwysol.

## Yr economi ddigidol

Mae datblygiad technolegol cyflym yn trawsnewid pob sector. Mae Cymru'n wynebu her ddeuol: sut i harneisio arloesi digidol er ffyniant cynhwysol a sut i sicrhau nad yw cymunedau'n cael eu gadael ar ôl gan awtomeiddio, AI a chyfalafiaeth platfformau.

Mae modelau cydweithredol yn cynnig datrysiadau beiddgar sy'n wynebu'r dyfodol. Gall cydweithfeydd platfform alluogi gweithwyr a defnyddwyr i gyd-berchen gwasanaethau digidol a'u rheoli ar y cyd – gan gynnig opsiynau democrataidd yn lle monopolïau technoleg sy'n tynnu cyfoeth o'r economi leol. Gall cydweithfeydd data rymuso grwpiau o bobl i reoli eu data eu hunain a gwneud arian ohono, gan herio modelau busnes sy'n ecsbloetio. Mae cwmnïau cydweithredol gweithwyr technoleg yn annog arloesi mewn amgylchedd dan arweiniad gwerthoedd, gan gadw doniau ac eiddo deallusol (IP) wedi'u gwreiddio yng Nghymru.

I ddatgloi hyn, mae cymorth ecosystem a seilwaith rhagweithiol yn hanfodol. Mae ar Gymru angen uned hybu cwmnïau cydweithredol digidol arbenigol – yn gweithio gyda phrifysgolion, entrepreneuriaid a chyllidwyr. Rhaid i fuddsoddi mewn sgiliau digidol fynd law yn llaw ag ymwybyddiaeth bod mentrau cydweithredol yn llwybr hyfyw i ddoniau technoleg.

## Cefnogi hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth

Gallai Hwb Datblygu Cydweithredol chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi entrepreneuriaeth yng Nghymru trwy alluogi pobl hunangyflogedig – sy'n aml yn unig ac yn wynebu heriau ariannol sylweddol – i ddod â'u hadnoddau at ei gilydd, lleihau risg a meithrin cydnerthedd cyfunol.

Mae llawer o weithwyr hunangyflogedig yn wynebu heriau fel incwm ansicr, diffyg tâl salwch, a phrin yw eu gallu i gael at hyfforddiant neu wasanaethau a rennir. Trwy hyrwyddo a chefnogi modelau cydweithredol, gallai'r Hwb helpu'r unigolion hyn i greu mentrau ar y cyd – fel cydweithfeydd gweithwyr neu gydweithfeydd gweithwyr llawrydd – sy'n caniatáu iddynt fanteisio ar gymorth swyddfa gefn, cyfarpar neu weithleoedd ar y cyd. Mae'r dull cyfunol hwn yn lleihau costau gorbenion ac mae'n galluogi hunangyflogaeth gynaliadwy. Yn ogystal, gallai hwyluso rhaglenni yswiriant ar y cyd ar sail Model 'Broodfonds' yr Iseldiroedd.

Byddai'r Hwb yn chwarae rhan hanfodol mewn goresgyn y rhwystrau ymarferol sy'n atal cydweithfeydd rhag ffurfio a chymell entrepreneuriaeth ymhlith grwpiau newydd o bobl yng Nghymru. Trwy wneud hynny, byddai'n meithrin twf economaidd cynhwysol wedi'i wreiddio mewn cyfoeth cymunedol a chymorth cilyddol ar draws Cymru.

## Arloesi gwasanaethau cyhoeddus

Mae cydweithfeydd iechyd cymunedol a chydweithfeydd gofal cymdeithasol yn cynnig ymateb wedi'i arwain gan y gymuned i'r argyfyngau meddygon teulu a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Trwy osod cymunedau yn ganolog i ddylunio a darparu gwasanaethau, gall y cydweithfeydd hyn helpu i fynd i'r afael â phrinder gweithlu, gwella mynediad at ofal o safon a meithrin ymddiriedaeth gyda chleifion. Gallai cydweithfeydd iechyd gynnwys practisau ar y cyd sy'n cael eu rhedeg gan weithwyr proffesiynol a chymunedau, gan ganolbwyntio ar ofal ataliol a holistig. Yn yr un modd, gall cydweithfeydd gofal cymdeithasol sicrhau cymorth o safon uchel, wedi'i bersonoleiddio, i bobl fregus a chynnig tâl ac amodau gwaith gwell i weithwyr gofal ar yr un pryd.

Mae cydweithfeydd iechyd cymunedol a chydweithfeydd gofal cymdeithasol yn cynnig ymateb wedi'i arwain gan y gymuned i'r argyfyngau meddygon teulu a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Byddai Hwb Datblygu Cydweithredol yn chwarae rhan hanfodol mewn datblygu'r modelau hyn trwy ddarparu cymorth technegol, cymorth llywodraethu, hyfforddiant a mynediad at gyllid dechrau busnes. Hefyd, gallai fod yn blatfform rhannu gwybodaeth, gan gysylltu cymunedau â modelau cydweithredol presennol ac arbenigedd. Trwy gefnogi ecosystem sy'n ffynnu ar gyfer perchnogaeth gymunedol, byddai'r Hwb yn helpu i wreiddio dtrysiadau cydweithredol, hirdymor o fewn systemau iechyd a gofal lleol ar draws Cymr

## Perchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau

Gall perchnogaeth gymunedol yrru trawsnewid economaidd lleol trwy gadw cyfoeth o fewn cymunedau a galluogi pobl i fodloni eu hanghenion eu hunain – boed hynny drwy dai, bwyd, ynni neu unrhyw fenter arall. Mae refeniw sy'n cael ei greu yn aros yn lleol, gan gefnogi cydnerthedd a gwerth cymdeithasol hirdymor.

Gal Hwb Datblygu Cydweithredol, gyda chefnogaeth deddfwriaeth alluogol a chefnogaeth arbenigol, fod yn allweddol i ddatgloi'r potensial hwn. Yn hollbwysig, rhaid i'r Hwb fynd y tu hwnt i gefnogi cymunedau sydd eisoes ar y daith hon.

Dylai gymryd rôl ragweithiol, gan ddwyn pobl ynghyd, nodi cyfleoedd lleol a phlannu hadau perchnogaeth gymunedol yn opsiwn lle nad yw hynny wedi cael ei ystyried eto.

Mae'r gwaith cyn-cychwyn hwn yn hanfodol i sicrhau bod y buddion yn cyrraedd pob cymuned, nid dim ond cymunedau â lefelau uwch o gyfoeth, sgiliau neu amser. Trwy gynnig cymorth cam cynnar a magu hyder, gall yr Hwb greu mynediad tecach at gyfleoedd, ehangu cyfranogiad a helpu i wreiddio perchnogaeth gymunedol fel arf nerthol ar gyfer datblygiad economaidd cynhwysol ar draws Cymru.

# Pam nawr yw'r amser

## Mae gan Gymru gyfle unigryw i arwain oes newydd o ddatblygu economaidd cynaliadwy, cynhwysol – dim ond os byddwn yn gweithredu nawr.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddyblu maint y sector cydweithredol, gan gynnig cyfle allweddol i fanteisio ar yr ymrwymiad hwn i greu Cymru fel cenedl gydweithredol. Oni bai bod Cymru'n manteisio ar y cyfle hwn nawr, mae perygl y cawn ein gadael ar ôl. Gall sector cydweithredol y DU ddyblu mewn maint, ond heb strategaeth gynhwysfawr, buddsoddiad targedig a seilwaith cymorth pwrpasol yma yng Nghymru, gallai'r effaith ar gymunedau Cymru fod yn gyfyngedig.

Byddai Hwb Datblygu Cydweithredol yn ymyrraeth strategol i greu twf economaidd a helpu i adeiladu economi fwy democrataidd a chydnerth mewn perchnogaeth leol – y gendedl gydweithredol. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 yn galw'n benodol am y math hwn o fuddsoddiad, gan amlygu ei fod yn allweddol i gyflawni economi llesiant. Mae'n darparu ffordd o ddod â'r sector preifat i'r genhadaeth hon, gan gysoni elw â diben cymdeithasol ac adeiladu cyfoeth sy'n aros mewn cymunedau.

Hefyd, mae'r Sefydliad Materion Cymreig ac Oxfam wedi galw am gymorth rhagweithiol i ddatblygu modelau cydweithredol mewn sectorau hanfodol fel bwyd, gofal ac ynni cymunedol – meysydd lle y mae gan Gymru angen taer a photensial clir. Mae adroddiad FSB Cymru ar gymorth busnes yn dangos bod y tirlun busnes ehangach yng Nghymru yn esblygu a bod cymorth rhagweithiol, arbenigol, yn allweddol. Mae'n rhaid bod cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn ganolog i'r newid hwn i sicrhau'r canlyniadau gorau i weithwyr, i gymunedau ac i economi Cymru – gellir cyflawni hyn trwy sicrhau cymorth arbenigol parhaus a hwb datblygu cydweithredol rhagweithiol, galluogol.

Mae Plan for Co-operative Growth Co-operatives UK yn amlinellu sut i ddarparu uchelgais dyblu maint yr economi gydweithredol, ac amlinellodd fod Hybiau Datblygu Cynaliadwy yn ateb allweddol. Mae gan Gymru gyfle i arwain trwy weithredu'r agenda hon ar gyflymder ac ar raddfa.

Rydym ni'n cyrraedd croesffordd ar gyfer datblygu cydweithredol yng Nghymru ac mae'n hanfodol ein bod yn gosod y sylfeini cadarn yn eu lle a fydd yn arwain at dwf cydweithredol i genedlaethau'r dyfodol. Gyda'n gwreiddiau wedi'u gosod yn gadarn yn y mudiad cydweithredol, ynghyd â'n maint cymharol fach a'n symlrwydd o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, mae gennym ni'r holl elfennau angenrheidiol i fanteisio ar yr eiliad allweddol hon ac i adeiladu cenedl gydweithredol sy'n gwella canlyniadau cymdeithasol ac economaidd pobl Cymru.

# Atodiad

## Cynllun Gwaith

Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer yr Hwb Datblygu Cydweithredol. Mae'n amlinellu rhaglen o weithgarwch a luniwyd i droi uchelgais yn weithredu a chyflawni deilliannau pendant i'r economi ac i'n cymunedau.

Mae ein hymagwedd wedi'i gwreiddio mewn camau ymarferol: gweithio mewn cadwyni cyflenwi, sectorau a chymunedau i weld cyfleoedd, gan nodi a dileu rhwystrau, a darparu cymorth teilwredig. Mae pob elfen o'r cynllun yn dargedig, yn gyflawnadwy ac yn fesuradwy, gan sicrhau bod yr Hwb yn gallu dangos gwir effaith. Gyda'i gilydd, mae'r cynigion hyn yn llunio strategaeth gydlnol i gryfhau menter gydweithredol a datgloi twf cynhwysol, cynaliadwy ar draws Cymru.

Bydd angen i Hwb Datblygu Cydweithredol i Gymru ysgogi diddordeb, gwybodaeth am y model cydweithredol a'i fuddion, a chynyddu nifer y bobl a'r sefydliadau sydd eisiau sefydlu cwmnïau cydweithredol.

Bydd angen iddo godi ymwybyddiaeth o botensial economaidd y model ymhlith unigolion, llunwyr polisi a sefydliadau angori fel awdurdodau lleol, byrddau iechyd, colegau a phrifysgolion. Bydd yn helpu i recriwtio a hyfforddi gweithwyr datblygu cydweithredol, wedi'u gwreiddio mewn cymunedau, i ddarparu cymorth arbenigol i bobl leol a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau angori economaidd, i sefydlu busnesau cydweithredol. Bydd angen iddo lobïo am fynediad i fodelau cyllid a buddsoddi priodol a hyrwyddo newidiadau deddfwriaethol a fydd yn creu amgylchedd galluogol i'r sector cydweithredol dyfu a ffynnu yng Nghymru.

### Rôl benodol i hwb datblygu cydweithredol

| | |
|---|---|
| Nodi'r farchnad, ymchwil a pholisi | • Mapio ac ymchwilio i gyfleoedd strategol mewn sectorau a chadwyni cyflenwi<br>• Ymchwilio i ardaloedd daearyddol i dargedu cymorth cyd-ddatblygu, gan gynnwys ardaloedd lle mae enghreifftiau o gydweithredu yn barod, ond hefyd ardaloedd sydd â lefelau isel o gychwyn busnesau newydd.<br>• Cefnogi dulliau consortiwm – adeiladu rhwydweithiau o gwmnïau cydweithredol a busnesau cymdeithasol presennol a'u cynorthwyo i ffurfio consortia cydweithredol, gan ganiatáu iddynt gymryd rhan mewn cyfleoedd caffael nad oedd ar gael iddynt yn flaenorol a darparu gwasanaethau ar raddfa fwy.<br>• Darparu ymchwil a dysgu o bob cwr o'r byd a dod ag arfer gorau yn ôl i Gymru.<br>• Ymchwilio i newidiadau deddfwriaethol y mae eu hangen, a'u hyrwyddo, i greu amgylchedd galluogol yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys caniatáu i unigolion gadw'u budd-daliadau wrth sefydlu a rhoi prawf ar fasnachu gan eu cwmni cydweithredol, neu newidiadau treth a fyddai'n annog pobl i sefydlu busnesau cydweithredol newydd. |

| | |
|---|---|
| Hyfforddi a recriwtio | • Hyfforddi a chyflogi pobl leol i ddod yn weithwyr datblygu cydweithredol lleol a chefnogi unigolion a grwpiau lleol i chwilio am gyfleoedd cydweithredu a sefydlu busnesau cydweithredol. |
| Darparu cyllid | • Ymchwilio i'r farchnad bresennol am gyllid dyledion ac addasrwydd y cynhyrchion i ddatblygu cwmni cydweithredol.<br>• Gweithio gyda darparwyr cyllid presennol i annog mathau o fenthyciadau newydd i fodloni anghenion cwmnïau cydweithredol, yn enwedig Banc Datblygu Cymru.<br>• Os oes bylchau, datblygu cynhyrchion cyllid newydd posibl. Ymchwilio i ffyrdd newydd o ddenu ecwiti trwy bartneriaethau â buddsoddwyr cymdeithasol. |
| Cymorth cyfreithiol, cymorth llywodraethu a chyngor busnes arbenigol | • Ffurfio grŵp<br>• Creu gweledigaeth – chwilio am gyfleoedd cydweithredol<br>• Hyfforddiant i gyfarwyddwyr ar redeg busnes cydweithredol.<br>• Ymgorffori cymorth i gofrestru'r busnes cydweithredol gyda'r FCA neu Dŷ'r Cwmnïau.<br>• Cymorth cynllunio busnes<br>• Tyfu a chynyddu graddfa cymorth |
| Creu is-gwmnïau cydweithredol | • Gweithio gyda sefydliadau angori i sefydlu busnesau newydd y gellir eu trosglwyddo i'r gweithwyr a dod yn gwmni cydweithredol gweithwyr.<br>• Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu prosiectau y gellid eu troi wedyn yn fusnes cydweithredol – er enghraifft, gallai hyn weithio'n dda fel rhan o strategaethau ôl-osod ac i gyflawni uchelgeisiau sero net.<br>• Gallai awdurdod lleol heb gyllideb gyfalaf gefnogi datblygiad cwmni cydweithredol lleol (CBS) i godi ecwiti cymunedol trwy gyfranddaliadau cymunedol i adeiladu ysgol newydd a'i gosod ar les yn ôl i'r ALl. Byddai incwm y rhent yn cael ei ddefnyddio i dalu cyfranddalwyr yn ôl dros gyfnod, gan drosglwyddo'r ased i'r ALl yn y pen draw. |
| Addysg gydweithredol | • Datblygu adnoddau i hyrwyddo entrepreneuriaeth gyfunol a busnes cydweithredol mewn ysgolion.<br>• Nodi a chefnogi hyrwyddwyr cydweithredol o fewn addysg bellach ac addysg uwch i hyrwyddo entrepreneuriaeth gyfunol a modelau busnes cydweithredol.<br>• Mynd i'r afael ar frys â'r cwricwlwm cydweithredol cyfyngedig iawn yn ein system addysg, gan adeiladu ar brosiect peilot Robert Owen. Mae angen newid systematig wedi'i yrru gan y llywodraeth. |

<table>
<tr><td>Hyrwyddo</td><td><ul><li>Hyrwyddo'r model i unigolion sy'n awyddus i ddechrau busnesau er mwyn cynyddu lefel yr ymholiadau yn benodol ar gyfer cymorth â chwmni cydweithredol.</li><li>Rydym yn gwybod bod llawer o ffactorau gwahanol sy'n symbylu entrepreneuriaeth ymhlith unigolion. Bydd hwyluso dull cyfunol – cyfuno'r risg, cyfuno asedau a gwybodaeth, a blaenoriaethu gwerth cymdeithasol – yn dwyn cysyniad entrepreneuriaeth i gynulleidfa newydd.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Datblygu marchnad</td><td><ul><li>Dwyn rhanddeiliaid allweddol ynghyd, fel gweithwyr, pobl hunangyflogedig, perchnogion busnes, defnyddwyr, buddsoddwyr a mwy i archwilio a sefydlu mentrau cydweithredol newydd yn strategol, gan gyflawni hyn trwy fod wedi'u gwreiddio mewn cymunedau a sectorau.</li><li>Nodi a chefnogi hyrwyddwyr cwmnïau cydweithredol mewn ALlau, byrddau iechyd a sefydliadau angori eraill, fel cymdeithasau tai.</li><li>Cefnogi sefydliadau angori i greu strategaethau datblygu cwmnïau cydweithredol.</li><li>Gweithio gyda chyrff cynrychioli busnesau fel FSB i amlygu potensial economaidd y model a hyrwyddo cwmnïau cydweithredol a busnesau ym mherchnogaeth y gweithwyr fel opsiynau olyniaeth ynghyd â photensial economaidd consortia cydweithredol o fusnesau sydd wedi'u sefydlu.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Datblygu adnoddau</td><td><ul><li>Creu adnoddau i gefnogi datblygiad cwmnïau cydweithredol penodol, gan gynnwys:<ul><li>Cwmnïau Cydweithredol Gweithwyr</li><li>Cwmnïau cydweithredol rhanddeiliaid lluosog lle mae gweithwyr a defnyddwyr y gwasanaeth yn aelodau. Byddai'r model hwn yn gweithio'n arbennig o dda o fewn y sector gofal a chymorth.</li><li>Cwmnïau Cydweithredol Tai</li><li>Undebau Credyd</li><li>Cwmnïau Cydweithredol Cymunedol sy'n defnyddio ecwiti cymunedol trwy gyfranddaliadau cymunedol, i fabwysiadu a datblygu asedau cymunedol.</li></ul></li><li>Datblygu adnoddau i hyrwyddo entrepreneuriaeth gyfunol a busnesau cydweithredol mewn ysgolion.</li><li>Creu deunyddiau marchnata ar bŵer economaidd busnesau cydweithredol.</li></ul></td></tr>
</table>

Sganiwch isod er mwyn dysgu rhagor am Cwmpas:

Cwmpas
Sparc
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

0300 111 5050

info@cwmpas.coop

www.cwmpas.coop

Cwmpas is a registered society under the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014, number 24287 R.

This publication is available in Welsh. Other formats such as large print or braille, are available on request. We welcome correspondence in English or Welsh and aim to provide an equal standard of service in both languages.